Cwestiynau am Reoliadau Gweithio ar Uchder newydd 2005

- **A yw'r Rheoliadau newydd ynglŷn â Gweithio ar Uchder yn gwahardd defnyddio ysgolion?**
- **A fydd yr HSE yn cynhyrchu Cod Ymarfer Cymeradwy ar Reoliadau Gweithio ar Uchder newydd 2005?**
- **Beth yw'r newidiadau i'r rheiliau amddiffyn o ran llwyfannau gwaith?**

A yw'r Rheoliadau newydd ynglŷn â Gweithio ar Uchder yn gwahardd defnyddio ysgolion?
Nid yw Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 yn gwahardd ysgolion. Y gofyniad yw mai dim ond pan fydd asesiad risg wedi dangos nad yw defnyddio cyfarpar gwaith mwy addas yn briodol oherwydd y risg isel, a hyd byr y dasg neu ystyriaethau o ran lleoliad y gwaith y dylid ystyried ysgolion.

Mae'r HSC yn derbyn ymarferoldeb defnyddio ysgolion ar gyfer gwaith ar uchder, a'r ffaith eu bod yn cael eu defnyddio'n gyffredin mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Defnyddir ysgolion bron ym mhob sector cyflogi, weithiau at ddibenion gwahanol i'r hyn y cawsant eu cynllunio ar ei gyfer.

Mae Atodlen 6 i Reoliadau Gweithio ar Uchder 2005 yn delio â'r gofynion ar gyfer ysgolion ac yn nodi:

'Atodlen 6 Gofynion ar gyfer Ysgolion:

1. Rhaid i bob cyflogwr sicrhau mai dim ond os yw asesiad risg o dan reoliad 3 y Rheoliadau Rheoli wedi dangos na ellir cyfiawnhau defnyddio cyfarpar gwaith mwy addas oherwydd y risg isel ac –
    a. yr amser y caiff ei ddefnyddio; neu
    b. nodweddion presennol ar y safle na ellir eu haddasu
    y dylid defnyddio ysgol i weithio ar uchder.
2. Dylai unrhyw arwynebedd y mae ysgol yn gorwedd arno fod yn sad, yn gadarn, yn ddigon cryf ac o wneuthuriad addas i gynnal yr ysgol yn ddiogel fel bod ei grisiau yn parhau'n llorweddol, ac unrhyw lwyth y bwriedir ei rhoi arni.
3. Rhaid lleoli ysgol i sicrhau ei sadrwydd wrth ei defnyddio.
4. Rhaid cysylltu ysgol grog mewn modd diogel fel, ac eithrio ysgol hyblyg, na ellir ei dadleoli ac y gellir osgoi siglo.
5. Dylid osgoi ysgol gludadwy rhag llithro tra ei bod yn cael ei defnyddio drwy -
    a. diogelu'r estyll wrth eu pen neu eu gwaelod'
    b. dyfais wrth-lithr effeithiol neu ddyfais sadio effeithiol; neu
    c. unrhyw drefniant sydd yr un mor effeithiol
6. Rhaid i ysgol a ddefnyddir gael mynediad fod yn ddigon hir i ymwthio allan yn ddigonol uwchben y man y mae'n rhoi mynediad iddo, oni bai bod mesurau eraill wedi'u cymryd i sicrhau gafael gadarn.
7. Rhaid peidio â defnyddio ysgol gyd-gloi neu ysgol ag estyniad oni bai bod ei rhannau wedi'u hatal rhag symud o'u cymharu â'i gilydd wrth eu defnyddio.
8. Rhaid atal ysgol symudol rhag symud cyn sefyll arni.

9. Pan fydd ysgol neu gyfres o ysgolion yn codi am bellter fertigol o 9 metr neu fwy yn uwch na'i gwaelod, darperir, pan fo'n rhesymol ymarferol, mannau glanio neu lwyfannau gorffwys digonol bob hyn a hyn fel sy'n addas.
10. Rhaid defnyddio pob ysgol mewn ffordd sy'n –
    a. sicrhau bod gafael ddiogel a chymorth diogel bob amser ar gael i'r defnyddiwr; a
    b. sicrhau bod y defnyddiwr yn gallu dal ei afael wrth gario llwyth oni bai, mewn achos o ysgol risiau, nad yw'n ymarferol dal gafael ar yr ysgol wrth gario llwyth, ac mae asesiad risg o dan reoliad 3 y Rholiadau Rheoli wedi dangos y gellir cyfiawnhau defnyddio ysgol risiau oherwydd -

        i. y risg isel; a
        ii. yr amser byr y caiff ei defnyddio.' Cyfeiriad: Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005. Gellir llwytho'r Offeryn Statudol o wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi. Mae'r HSE wedi cynhyrchu taflen am ddim o'r enw *The Working at Height Regulations 2005: A brief guide* (INDG401). Fel arall, mae copïau caled ar gael gan HSE Books.

A fydd yr HSE yn cynhyrchu Cod Ymarfer Cymeradwy ar Reoliadau Gweithio ar Uchder newydd 2005?
Nid yw'n bwriadu cyhoeddi Cod Ymarfer Cymeradwy ar gyfer y Rheoliadau newydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y bydd sectorau diwydiant penodol o fewn yr HSE yn cynhyrchu eu canllawiau penodol eu hunain. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd.

Beth yw'r newidiadau i'r rheiliau amddiffyn o ran llwyfannau gwaith?
O dan y Rheoliadau newydd rhaid i reiliau amddiffyn ar gyfer gwaith adeiladu fod o leiaf 950 mm o uchder, o'i gymharu â 910 mm yn yr hen Reoliadau. Lle mae rheiliau amddiffyn 910 mm o uchder eisoes wedi'u gosod gallant aros ar yr un uchder nes eu bod yn cael eu newid. Ni ddylai unrhyw fwlch rhwng y rheilen uchaf ac unrhyw reilen ganolog fod yn fwy na 470 mm. Dylai troedfyrddau fod yn addas ac yn ddigonol.

Cyfeiriad: Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005.

Gellir llwytho'r Offeryn Statudol o wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Mae HSE wedi cynhyrchu taflen am ddim o'r enw *The Working at Height Regulations 2005: A brief guide* (INDG401).

Fel arall, mae copïau caled ar gael gan HSE Books.